Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Cynllun Gweithredol 2022-23



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, braille, sain, hawdd ei ddarllen ac Arwyddeg. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg os gofynnir amdani.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Os oes gennych unrhyw anghenion hygyrchedd ac yn meddwl am wneud cais, gallwn helpu i sicrhau eich bod yn cael eich cefnogi yn ystod y broses ymgeisio. Er enghraifft, efallai fod gennych gyflwr sy'n ei gwneud yn anodd i chi gyfleu eich syniadau prosiect yn eich ffurflen gais. Cysylltwch â ni ar grantiau@celf.cymru i drafod sut gallwn ni helpu.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

Clawr: Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC
(Llun: Yusef Bastawy)

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Cynnwys


Pwy ydym ni ........ 2

Ein strategaeth ........ 4

Y Cyd-destun ........ 6

Ein rhaglenni gwaith allweddol yn 2022/23 ........ 10

1. Adolygiad Buddsoddi ........ 12
2. Adfer a Thrawsnewid ........ 14
3. Ehangu Ymgysylltiad a Chydraddoldeb ........ 20
4. Celfyddydau, Iechyd a Lles ........ 22
5. Pobl Ifanc a Dysgu Creadigol ........ 24
6. Hybu'r Gymraeg ........ 28
7. Gweithgaredd Rhyngwladol ........ 30
8. Y Celfyddydau a Chyfiawnder Hinsawdd ........ 34
9. Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol i Gyngor Celfyddydau Cymru ........ 38

Beth mae'r Cynllun hwn yn ei olygu i chi ........ 42

Mesur ein llwyddiant ........ 46

# Pwy ydym ni

Cyngor Celfyddydau Cymru yw sefydliad ariannu a datblygu swyddogol y wlad ar gyfer y celfyddydau. Rydym ni'n Elusen gofrestredig, wedi'n sefydlu gan Siarter Frenhinol, wedi'i hariannu ac yn cael ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn dosbarthu arian gan y Loteri Genedlaethol ac yn codi arian ychwanegol lle gallwn o ffynonellau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Mae'r amcanion yn ein Siarter Frenhinol yn hybu datblygiad y celfyddydau yng Nghymru ac ymrwymiad i gynyddu hygyrchedd y celfyddydau i'r cyhoedd, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r amcanion hyn yn sail i'r blaenoriaethau a nodir yn ein Cynllun Corfforaethol cyhoeddedig presennol, Er Budd Pawb a'n Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad.

Drwy gydweithio â Llywodraeth Cymru rydym yn cefnogi ac yn hyrwyddo cyfraniad pwysig y celfyddydau at Gymru a'r Byd – yn ddiwylliannol, yn gymdeithasol, yn addysgol, yn amgylcheddol ac yn economaidd. Rydym yn gwneud hyn drwy fuddsoddi yn artistiaid, sefydliadau a chymunedau Cymru.

Ein prif nod yw meithrin amgylchedd cynaliadwy lle mae'r celfyddydau'n gallu ffynnu:

- amgylchedd sy'n annog, adnabod a meithrin talent greadigol a'r seilwaith i gefnogi hyn, ble bynnag mae'n digwydd yng Nghymru, i'w lawn botensial
- amgylchedd sy'n cael ei ddiogelu a'i feithrin ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- amgylchedd sy'n herio ac yn dileu rhwystrau i hygyrchedd at y celfyddydau – yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol, yn ddaearyddol ac yn economaidd – ac sy'n hybu'n weithredol gyfartaledd, amrywiaeth a chynhwysiant.

Caiff ein strategaethau eu llywio gan Lythyr Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru at Gyngor Celfyddydau Cymru, ei Rhaglen ar gyfer Llywodraeth a'i Chytundeb Cydweithio, a Deddf Llesiant ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol. Arweinir ein cynllunio cyfredol yn ychwanegol gan ein hymrwymiad i weithredu Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru, y Strategaeth Ddiwylliannol arfaethedig, a darparu Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru.

Rydym yn canolbwyntio'n benodol ar yr heriau sy'n deillio o effaith ddinistriol pandemig y coronafeirws a'r argyfwng costau byw; y rhwystrau sy'n wynebu cymunedau diwylliannol ac ethnig amrywiol, pobl F/fyddar ac anabl a phobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys hygyrchedd at, a chymryd rhan yn, y celfyddydau; ac effaith gynyddol y newid yn yr hinsawdd.

Bydd ein Hadolygiad Buddsoddi 2023 yn helpu i lunio'r amgylchedd ar gyfer datblygu'r celfyddydau dros y degawd nesaf a bydd yn canolbwyntio ar gyflawni chwe blaenoriaeth allweddol sy'n ymgorffori'n hymrwymiad ychwanegol i gyd-greu a chyd-gynhyrchu â chymunedau Cymru ac yn y Gymraeg; meithrin talent; a'r angen am drawsnewid, hyblygrwydd a'r gallu i ymaddasu mewn amseroedd sy'n newid yn gyflym.

Arweinir ein gwaith gan egwyddorion gwasanaeth cyhoeddus sy'n deg, agored ac atebol. Mae'r egwyddorion hyn yn gosod y safonau y dylech eu disgwyl gennym ni. Maen nhw hefyd yn hysbysu'r ffordd rydym ni'n ymddwyn – gyda ni ein hunain a gyda chi.

# Ein strategaeth

## Ein cenhadaeth a'n blaenoriaethau

## Gwneud y celfyddydau yn ganolog i fywyd a lles y genedl

Ein gweledigaeth ni yw Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau yn ganolog i fywyd a lles y genedl. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i'n gweledigaeth, er gwaethaf y coronafeirws.

Ein nod yw cefnogi ail-adeiladu Cymru greadigol lle mae ein doniau gorau'n cael eu datgelu, eu meithrin a'u rhannu; gwlad lle mae'r croestoriad ehangaf posibl o bobl yng Nghymru yn mwynhau ac yn cymryd rhan yn y celfyddydau; gwlad lle mae gwaith rhagorol yn cael ei werthfawrogi, ei ddiogelu a'i gefnogi i dyfu. Disgrifir hyn yn fanylach yn ein cynllun corfforaethol – "Er Budd Pawb". Mae'r Cynllun Gweithredol hwn yn ffurfio blwyddyn olaf y Cynllun Corfforaethol hwn.

Dwy flaenoriaeth sy'n sail i'r strategaeth hon ar hyn o bryd. Dyma nhw:

1. Hybu Cydraddoldeb fel sylfaen ein hymrwymiad clir i gyrraedd yn ehangach ac yn ddyfnach i bob cymuned ledled Cymru.

2. Cryfhau Gallu a Gwytnwch y sector, gan alluogi talent greadigol i ffynnu

Mae'r Cyngor hefyd wedi nodi camau pellach i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r ddwy flaenoriaeth yma:

3. Galluogi Cyngor Celfyddydau Cymru i weithio'n fwy effeithiol, gan gydweithio'n fwy dychmygus â phartneriaid o'r un anian ledled Cymru

## Hybu llesiant a chynaliadwyedd

Mae effaith y coronafeirws yn golygu bod Cymru yn wynebu nifer o heriau cymhleth yn gymdeithasol ac yn economaidd. Mae ein gwaith yn rhan o fframwaith deddfwriaeth Lles Cenedlaethau Dyfodol Llywodraeth Cymru.

Mae gan y ddeddfwriaeth hon saith nod:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru wydn
3. Cymru iachach
4. Cymru fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynus
6. Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar draws y byd

Mae ein cynlluniau'n adlewyrchu'r nodau hyn ac yn cael eu llywio gan "Bum ffordd o weithio" sy'n diffinio ein dull o weithredu: Tymor hir, Atal, Integreiddio, Cydweithio, Ymwneud.



Sarah Thornton, Dawns i Bawb (Llun: Phillip Hatcher-Moore ar gyfer y prosiect '11 Million Reasons to Dance' a gomisyiynwyd gan People Dancing)

# Y Cyd-destun

Mae'n teimlo fel ein bod ni i gyd yn gorfod ail-arfer gyda gweld golau dydd wrth i ni ddod o dwnnel tywyll y pandemig. Wrth gwrs, rydym yn ansicr o hyd am ddyfodol iechyd a diogelwch, am effaith gweithio hybrid ar ein hymddygiad cymdeithasol a diwylliannol ac am gyflwr yr economi a chyllid cyhoeddus mewn cyfnod mor gythryblus.

Ond rydym yn dod drwyddo, ac rydym yn mynd i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd hon gan benderfynu na fydd gwersi'r ddwy flynedd ddiwethaf yn cael eu hanghofio – y byddan nhw'n llunio ein cynlluniau a'n gweithgareddau yn y dyfodol. Mae staff Cyngor Celfyddydau Cymru, ynghyd â'r artistiaid a'r sefydliadau celfyddydol talentog yr ydym yn ffodus o'u cael yng Nghymru, wedi cyflawni pethau anghyffredin yn ystod y pandemig. Ond nawr fe osodon ni ein hwynebau'n gadarn i edrych at y dyfodol.

Mae'r Cynllun Gweithredol hwn ar gyfer y flwyddyn nesaf yn dangos ein penderfyniad i wneud y newidiadau sydd eu hangen ar frys. Byddwn ni'n dal i ganolbwyntio ar adferiad ar ôl y pandemig yn y sector ac ar gynaliadwyedd ar gyfer y dalent a'r creadigrwydd sydd mor werthfawr ac yn hanfodol ar gyfer lles ein cyd-ddinasyddion. Ond ar yr un pryd ag yr ydym yn ceisio cynnal a chadw a pharhau, byddwn yn ceisio gwneud y newidiadau hynny sy'n mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a'r gwaharddiadau annerbyniol yn ein cymdeithas.

Mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb, i gyrraedd yn ehangach ac yn ddyfnach ar draws cymunedau amrywiol Cymru, wedi cael ei drafod lawer ac mae ganddo gefnogaeth gadarn ymysg ymarferwyr celfyddydol. Dyma fydd prif yrrwr ein Hadolygiad Buddsoddi gohiriedig a fydd yn dechrau ar ei gylch yn ddiweddarach eleni. Gofynnir i aelodau presennol ac aelodau newydd posibl o Bortffolio Celfyddydol Cymru ddangos yn argyhoeddiadol eu hymrwymiad i ehangu ymgysylltiad â'u cynllunio.

Mae hwn yn gyfnod ar gyfer beiddgarwch a chwarae teg, adeg pan mae'n rhaid i sefydliadau mwy sydd â hanes sylweddol o gyflawni ac o gael cefnogaeth ariannol ddangos beth yn eu llygaid nhw yw gwerth sefydliadau llai a gweithwyr llawrydd, gan gymryd eu buddsoddiad mewn datblygiad a thriniaeth deg yn hollol o ddifrif. Rhaid i ni ddangos cynnydd cyflymach wrth agor cyfleoedd a hygyrchedd i gymunedau ethnig a diwylliannol amrywiol, pobl anabl a'r rhai sydd wedi'u heithrio gan dlodi ariannol.

Ar ran Llywodraeth Cymru, byddwn ni'n symud ymlaen i gyflawni'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru mewn cydweithrediad â'n partneriaid o dan y Cytundeb Cydweithio – Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru. Bydd y project hwn yn dod â model gwasgaredig o orielau ledled Cymru i arddangos talent Cymru mewn ffyrdd newydd cyffrous sy'n seiliedig ar yr egwyddor o gyd-guradu ac ymgysylltu â chymunedau a hyrwyddo cyfleoedd ledled Cymru i brofi'r celfyddydau a'u mwynhau.

Yn fwa dros yr holl ymrwymiad hwn i gydraddoldeb mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yrrwr newid a chyflawniad gwych gan Gymru. A dyma fydd yr ysbienddrych i ni graffu ar ofynion cyfiawnder hinsawdd a lleihau ein hallyriadau carbon. Fel sector, mae'n rhaid i ni ymrafael yn greadigol gyda'n hymateb i'r argyfwng hinsawdd, yn weithredol ac yn thematig yn ein gwaith artistig. Bydd mentrau allweddol megis y model gwasgaredig a datblygiad oriel angor i'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru yn cyfrannu at hyn drwy leihau'r angen i gynulleidfaoedd a chyfranogwyr deithio i gymryd rhan mewn gweithgaredd creadigol o ansawdd uchel.



*Mewn Datblygiad,* Frân Wen a Kristina Banholzer

Mae cymaint o waith rhyfeddol yn digwydd yn y celfyddydau yng Nghymru. Rydym ar flaen y gad o safbwynt cael rhaglenni sy'n prif ffrydio creadigrwydd artistiaid ym maes Addysg ac mewn Iechyd a bydd ein Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau a'n ffrydiau ariannu o ran y Celfyddydau ac Iechyd yn parhau i gael effaith sylweddol yn y flwyddyn i ddod.

Yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, rydym yn llwyr gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i dyfu niferoedd y siaradwyr Cymraeg ac rydym yn gwybod pa mor bwerus y gall gweithgarwch diwylliannol fod ar gyfer creu ymdeimlad o groeso a gwahoddiad sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg fel dimensiwn bywiog a chyfoethog ar hyd ein bywyd ni yng Nghymru. Canolbwyntiwn yn gryf ar gynyddu gweithgarwch celfyddydol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn olaf, fel erioed, bydd ein gwaith yn ceisio cefnogi a meithrin ystod eang o leisiau, talentau newydd, celfweithiau amrywiol a gweithredoedd creu beiddgar ac arloesol. 'Y gelf orau i'r nifer mwyaf o bobl' fydd ein harwyddair bob amser.

Mae'n dasg enfawr rydym ni wedi ei gosod i'n hunain. Ond mae gennym ni'r bobl i'w gyflawni, yn y sector ac yng Nghyngor Celfyddydau Cymru. Ac mae gennym Lywodraeth a phartneriaid eraill sy'n ein cyllido sydd wedi datgan eu hymrwymiad i'r hyn yr ydym yn anelu at ei gyflawni ar y cyd â phobl Cymru.

Wrth i'n llygaid ymaddasu i'r golau llachar, mae'r dirwedd yn llawn her ac anhawster, tensiynau a rhwystrau. Ond mae hefyd yn llawn potensial – y potensial i adeiladu dyfodol diwylliannol sy'n nodedig o'n cenedl a'n gwerthoedd. Dyna beth yw pwrpas y Cynllun hwn.

**Phil George**

**Cadeirydd**



*Sincere as Objects*, Cwni Theatr
Volcano Bourdon Brindille, 2022

# Ein rhaglenni gwaith allweddol yn 2022/23

Rydym wedi nodi 9 rhaglen allweddol o waith ar gyfer ein Cynllun Gweithredol eleni. Mae'r rhain wedi'u nodi isod ac yn manylu ar y blaenoriaethau allweddol yr ydym wedi'u nodi er mwyn symud ymlaen gyda phob un o'r rhain. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cael eu cefnogi gan nifer o gamau mewnol y byddwn yn eu monitro ac yn adrodd am eu cynnydd.

Ar gyfer pob maes yn ein rhaglen rydym wedi nodi ei berthynas â 7 nod a 5 ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac i'r 6 nod a rennir ar gyfer eleni yn ein Llythyr Cylch Gwaith gan Lywodraeth Cymru. Defnyddir yr eiconau canlynol i'w hadnabod:

## Geirfa’r eiconau

### Nodau Lles



Cymru Lewyrchus



Cymru Gydnerth



Cymru sy’n fwy Gyfartal



Cymru Iachach



Cymru o Gymunedau Cydlynus



Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae’r Gymraeg yn Fynnu



Cymru sy’n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Disgrifir aliniad ein rhaglenni gwaith yn erbyn y 5 ffordd o weithio o dan bob un o feysydd y rhaglen isod.

### Nodau llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru



- Datgarboneiddio
- Mynd i’r afael â phob anghydraddoldeb a sicrhau Cymru wrth-hiliol
- Gwella hygyrchedd a chyfranogiad i bawb
- Hybu iechyd a lles
- Creu cyfleoedd i bobl ifanc
- Dangos delwedd rymus a chadarnhaol o Gymru i’r byd

**Dyma ein 9 rhaglen allweddol o waith:**

# 1. Adolygiad Buddsoddi

Yn ystod eleni byddwn yn ailddechrau gwaith ar ein Hadolygiad Buddsoddi gohiriedig – ein hadolygiad achlysurol o Bortffolio Celfyddydol Cymru. Nod yr Adolygiad Buddsoddi yw adnabod y sefydliadau sy'n gallu ein helpu orau i gyflawni ein blaenoriaethau diwylliannol.

Yn draddodiadol mae ein Hadolygiadau Buddsoddi yn digwydd yn fras bob pum mlynedd, a nhw yw ein prif ffyrdd o adnewyddu ac adolygu pwy sy'n ffurfio Portffolio Celfyddydol Cymru.

Mae trafodaethau cynnar gyda'r sector wedi dweud wrthym fod angen i ni edrych ar sut rydym yn cynnal ein Hadolygiad fel y gallwn greu Portffolio sy'n adlewyrchu Cymru a'i phobl yn well. Bydd dogfen ymgynghorol yn cael ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022, a bydd cyfnod ymgynghori ffurfiol yn dod i ben ym mis Hydref 2022.

Rhaid i'r darn yma o waith gyrraedd y pwynt lle mae grŵp ehangach, mwy amrywiol o bobl a sefydliadau wedi cael y cyfle i roi eu syniadau ac i'r rhain gael eu dwyn ynghyd i ddogfen weledigaeth newydd.

Bydd angen i'r ddogfen weledigaeth hefyd ystyried meysydd allweddol o flaenoriaeth i Gyngor Celfyddydau Cymru fel y rhai a gyhoeddwyd yn ein Cynllun Corfforaethol "Er Budd Pawb", Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fersiwn derfynol y Contract Diwylliannol a'n dogfen 'Ailosod y Llwyfan'.

Bydd y ddogfen hon yn dweud wrthym beth sydd ar goll ar hyn o bryd, beth y gellid ei wella a sut y gallwn ddefnyddio'r Adolygiad Buddsoddi i gyrraedd yno.

Wedi'i lywio gan y weledigaeth ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi, byddwn ni'n diffinio cylch gorchwyl yr Adolygiad a'r canlyniadau allweddol yr ydym am eu cyflawni o ganlyniad iddo. Byddwn hefyd yn ystyried beth y gallai'r broses ymgeisio ei gynnwys, gan sicrhau ei fod yn rhoi'r eglurder angenrheidiol ac yn hyrwyddo hygyrchedd. Bydd y Cyngor yn cymeradwyo ein gweledigaeth ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi erbyn Rhagfyr 2022 a bydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei gyhoeddi.

Mae disgwyl i'r Adolygiad Buddsoddi agor i gais ym mis Ionawr 2023. Bydd yr asesiad a'r penderfyniadau yn digwydd drwy gydol y flwyddyn ariannol 2023/24. Bydd trefniadau cyllido'r Portffolio newydd yn dod i rym o fis Ebrill 2024 ymlaen.

## Ein prif flaenoriaethau:

1. Datblygu a chyhoeddi ein gweledigaeth ar gyfer Portffolio Celfyddydol Cymru newydd
2. Datblygu a chyhoeddi cylch Gorchwyl yr Adolygiad Buddsoddi ar gyfer lansio ceisiadau ym mis Ionawr 2023
3. Datblygu a chyhoeddi proses ymgeisio ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi i'w lansio ym mis Ionawr 2023

## 5 Ffordd o Weithio

**Tymor hir:** er mwyn sicrhau gwir newid, bydd angen i ni ariannu sector sydd wir yn cynrychioli amrywiaeth a barn pobl Cymru a byddwn yn cyfrannu at gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.

**Integreiddio:**



Gwella hygyrchedd a chyfranogiad
Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, cyflawni gwrth-hiliaeth

**Ymwneud:** Bydd nifer o ymarferion a gweithdai ymgynghori allanol, sy'n cynnwys cymunedau ledled Cymru, gan gynnwys y rhai hynny sy'n deillio o grwpiau a dangynrychiolir ar hyn o bryd, yn helpu i lywio'r weledigaeth a'r cylch gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi.


**Cydweithio:** Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan Swyddogion Cyngor Celfyddydau Cymru, o dan arweiniad a mewnbwn ei Gyngor. Er mwyn cael llwyddiant, rhaid iddo gynnwys cydweithio cynyddol â'r sector a'n rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'u Rhaglen Lywodraethu, ochr yn ochr â fframwaith hanfodol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

**Atal:** Un o brif ganlyniadau'r Adolygiad Buddsoddi yw cael gwared ar y rhwystrau y mae cymunedau a grwpiau yng Nghymru yn eu hwynebu – yn enwedig cymunedau diwylliannol ac ethnig amrywiol, pobl F/fyddar ac anabl a phobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol – i gael hygyrchedd at y celfyddydau a gallu cymryd rhan ynddynt.

## 2. Adfer a Thrawsnewid

Mae'r byd yn edrych yn wahanol iawn heddiw i sut yr oedd cyn y coronafeirws. Rydym wedi gweld effaith ddigynsail ar ein heconomi, ein diwylliant a'n ffordd o fyw. Dros nos, arweiniodd y pandemig byd-eang at atal pob gweithgaredd cyhoeddus ac at effaith niweidiol a phellgyrhaeddol ar ein cymdeithas a'n ffordd o fyw a gweithio i bawb.

Am y 2 flynedd diwethaf roedd ein sefyllfa arferol yn un o 'ymateb brys'. Nawr wrth i ni ddechrau dysgu byw gyda'r pandemig ac ystyried 'beth nesaf' ni all fod yn seiliedig ar yr hen 'fusnes fel arfer'. Yn hytrach, rhaid edrych o'r newydd ar sut y gallwn gyflawni sector gelfyddydol gref a gwydn sy'n adlewyrchu'n iawn ddiwylliant a chymdeithas yn y Gymru fodern. Nid mater o ba mor gyflym y gall lleoliadau ailagor neu gall cynulleidfaoedd ddychwelyd i ddigwyddiadau cyhoeddus, er mor bwysig yw hyn. Mae'n ymwneud â sut y gallwn annog a chodi hyder cynulleidfaoedd i ddychwelyd a'r hyn sy'n digwydd pan fyddant yn ei wneud, gan ddarparu cyfleoedd newydd a mwy hygyrch i ymgysylltu â'n diwylliant cyfoethog sy'n dathlu Cymru a'i phobl. Rydym hefyd yn cydnabod ac yn adeiladu ar y gwersi cadarnhaol a ddysgwyd o'r pandemig megis ein gallu digidol i greu celf a'i mwynhau.



Prosiect Darlunio â Golau Tanio, Andy O'Rourke a Chlwb Bechgyn a Merched Bettws

Yn ystod eleni byddwn yn cymryd camau i werthuso effaith a heriau'r pandemig ar y Sector – sefydliadau, unigolion creadigol a gweithwyr llawrydd, a chynulleidfaoedd a chyfranogwyr – ac yn chwilio am ffyrdd y gallwn gynnig cyfleoedd cymorth a datblygu gan gynnwys llwybrau gyrfaol i gefnogi'r rhai sy'n dymuno gweithio yn y celfyddydau – gan gynnwys mentrau sy'n cefnogi ac yn meithrin arweinwyr, a hynny'n annog cynulleidfaoedd a chyfranogwyr i ddychwelyd at – a chynyddu eu hymgysylltiad â – y celfyddydau.

Fe wnawn ni hyn mewn sawl ffordd:

- drwy ddatblygu a gwreiddio egwyddorion y Contract Diwylliannol yn holl gyllid ein grantiau
- drwy weithio mewn partneriaeth â'r rhai sy'n rhannu ein gwerthoedd er mwyn creu cyfleoedd na allem ni eu creu ar ein pen ein hunain, gan gynnwys y rhwydwaith o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl i hyrwyddo pobl anabl yn y gweithlu
- ymateb i ganfyddiadau adroddiad Gweithwyr Llawrydd Diwylliannol Cymru gydag arian wedi'i dargedu
- Datblygu Rhaglen Brentisiaeth ar gyfer y gweithlu celfyddydol
- Buddsoddi mewn cefnogi creu a datblygu sgiliau digidol
- Gweithio gyda'r sector i ystyried opsiynau ar gyfer cynyddu lefelau a hyder yn ein cynulleidfaoedd

Er mwyn helpu i hwyluso'r camau hyn, rydym am ddatblygu perthynas newydd ac aeddfed gydag artistiaid a sefydliadau celfyddydol – un yn seiliedig ar fod yn agored, ar ymddiriedaeth ac ar barch at ein gilydd. Byddwn ni'n hyrwyddo ac yn hwyluso trafodaethau penodol ar y celfyddydau i nodi meysydd ar gyfer cefnogaeth a datblygiad sydd wedi'u targedu.

Byddwn ni'n sefydlu partneriaeth newydd gyda Sefydliad PRS i gefnogi crewyr cerddoriaeth sy'n dod i'r amlwg ac, ynghyd â Chymru Greadigol, yn cefnogi blwyddyn gyntaf Power up yng Nghymru, a fydd yn ceisio creu sylfeini i fynd i'r afael â'r rhwystrau deuol sy'n wynebu artistiaid duon yng Nghymru: hiliaeth a diffyg seilwaith. Rydym hefyd yn anelu at glymu hyn gyda chynnig i gefnogi 'Sbardun' yng Nghymru, rhaglen sy'n cefnogi artistiaid o amgylch pwyntiau datblygu allweddol yn eu gyrfa.

Byddwn ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Strategaeth Ddiwylliannol newydd. Wrth i'r gwaith hwn ddatblygu camau penodol i symud ymlaen bydd y rhain yn cael eu cynnwys mewn Cynlluniau Gweithredol yn y dyfodol. Yn y cyfamser, drwy ein rhaglen Gyfalaf byddwn yn symud ymlaen i weinyddu a monitro cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer adnewyddiad helaeth Theatr Clwyd.

Bydd llwyddiant y gwaith hwn hefyd yn dibynnu ar gael seilwaith cadarn i'w gefnogi. Felly, rydym hefyd yn gwerthuso effaith ein Rhaglen Gyfalaf ac yn ceisio adnoddau i ddatblygu Strategaeth Gyfalaf newydd.

O dan y Rhaglen Lywodraethu bresennol, y Cytundeb Cydweithio, ac mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, byddwn yn parhau i arwain ar ddatblygu project Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru drwy fodel gwasgaredig o ofodau oriel ar draws Cymru a datblygu safle angor.

## Ein prif flaenoriaethau

1. Deall ac ymateb i heriau sy'n wynebu sefydliadau yn dilyn pandemig y coronaf-eirws
2. Dealltwriaeth ac ymateb i'r heriau sy'n wynebu unigolion a gweithwyr llawrydd yn dilyn pandemig y coronafeirws
3. Creu cyfleoedd gyrfa cynhwysol i'r gweithlu celfyddydol
4. Cyfrannu at ddatblygu Strategaeth Ddiwylliannol newydd Llywodraeth Cymru, a'i chefnogi
5. Datblygu olynydd i raglen gyfalaf estynedig y Loteri 2012-2017
6. Datblygu a chyflwyno prosiectau strategol sy'n canolbwyntio ar y celfyddydau
7. Cynyddu prosiect Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol Llywodraeth Cymru
8. Datblygu cyfalaf Theatr Clwyd



*Wild Thoughts*, Cwmni
Dawns Cenedlaethol Cymru
(Llun: Mark Douet)

## 5 Ffordd o Weithio

**Tymor hir:** Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar yr heriau y mae'r celfyddydau bellach yn eu hwynebu ac yn datblygu ymatebion cadarnhaol sy'n amddiffyn a chynnal y sector dros y tymor hwy, gan gynyddu hygyrchedd a galluogi creadigrwydd i barhau i dyfu ac ymaddasu mewn ymateb i effaith y pandemig.

**Integreiddio:**



Gwella hygyrchedd a chyfranogiad
Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, cyflawni gwrth-hiliaeth

**Ymwneud:** Rhaid i'r gwaith hwn gynnwys deialog gyda'r Sector a'r cyhoedd, i wirioneddol adnabod a deall maint yr hyn sy'n ofynnol i allu cael mwy o gyfleoedd i bawb brofi'r celfyddydau, boed hynny drwy lwybrau gyrfa, drwy fod yn aelod o gynulleidfa neu drwy gyfranogi o'r celfyddydau. Byddwn yn gwahodd artistiaid, sefydliadau celfyddydol ac ymgynghorwyr i weithio'n agosach gyda ni fel partneriaid ar ddatblygu polisi a strategaeth. Dylai artistiaid, gweithwyr celfyddydol a sefydliadau celfyddydol fod yn rhan o ddiffinio'r mesurau hynny sydd â'r nod o gefnogi eu gwaith ac o gryfhau'r sector. Mae hyn yn gyson â nodau cynaliadwyedd a lles.

**Cydweithio:** Byddwn yn gweithio gyda'r sector, ein rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ystod o bartneriaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol gan gynnwys partneriaid presennol megis Weston Jerwood. Gyda rhai cyrff mae gennym gytundeb partner penodol neu femorandwm o ddealltwriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys ein partneriaeth gydag Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru wrth gyflwyno'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru, a sefydliadau mor amrywiol â BBC Cymru, y Cyngor Prydeinig a Chyfoeth Naturiol Cymru. Byddwn ni hefyd yn gweithio gyda phartneriaid newydd gan gynnwys rhwydwaith Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl i hyrwyddo pobl anabl yn y gweithlu.

**Atal:** Roedd amddiffyn a diogelu'r celfyddydau rhag effaith y pandemig yn ganolog i'n gwaith dros y 2 flynedd ddiwethaf. Nawr, wrth i'r cyfyngiadau lacio, mae ein ffocws yn newid i fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae'r Sector a'r cyhoedd yn eu hwynebu wrth gyflawni a chael hygyrchedd at gynnig diwylliannol llewyrchus. Rhaid edrych o'r newydd ar sut y gallwn gyflawni sector gelfyddydol gref a gwydn sy'n adlewyrchu'n iawn ddiwylliant a chymdeithas Cymru fodern a datblygu ymatebion cadarnhaol sy'n amddiffyn a chynnal y sector, lle gall creadigrwydd barhau i dyfu ac addasu a bod yn hygyrch i bawb mewn amgylchiadau heriol iawn. Bydd cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ar ddatblygu mentrau allweddol fel y Strategaeth Ddiwylliannol yn helpu i gyflawni hyn.



*Ngaay–Konesans*, Shiraz Bayjoo a Brook Andrew, Oriel Gelf Glynn Vivian (Llun: Polly Thomas)

# 3. Ehangu Ymgysylltiad a Chydraddoldeb

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu dull o fynd at y celfyddydau a diwylliant sy'n ennyn diddordeb unigolion a chymunedau ledled Cymru wrth benderfynu beth sy'n cyfrif fel diwylliant, lle mae'n digwydd a phwy sy'n ei greu a'i brofi.

Mae heriau a rhwystrau sylweddol sy'n wynebu unigolion a chymunedau mewn perthynas ag ymwneud â'r celfyddydau. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r rhain wedi bod yn amlwg drwy lais yr ymgyrchoedd Mae Bywyd Pobl Dduon o Bwys ac Ni Chawn Ein Dileu a ddaeth â ffocws craff ar effaith hiliaeth strwythurol a gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl sydd wedi bod mor gyffredin drwy'n cymdeithas gyfan ac sydd wedi atal ymgysylltu â diwylliant a'r celfyddydau. Felly hefyd rydym ni wedi clywed lleisiau'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol a ddywedodd wrthym yn glir am y rhwystrau a'r heriau sy'n eu hwynebu wrth greu a chael hygyrchedd at y celfyddydau.

Credwn yn gryf y dylai diwylliant yng Nghymru adlewyrchu bywyd pob un o'i holl ddinasyddion.

Mae pobl a chymunedau sy'n wynebu rhwystrau i ymgysylltu, pobl niwroamrywiol, fyddar ac anabl a phobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, yn bennaf y rhai mewn cymunedau ôl-ddiwydiannol, yn rhan annatod a chanolog o'n bywyd diwylliannol. Ac mae ein blaenoriaethau wedi'u gosod i ddarparu camau sydd wedi'u targedu i helpu i gael hyn i ddigwydd.

Byddwn ni'n cyflawni'n ôl ein hymrwymiadau yn ein cynlluniau gweithredu cyhoeddedig a'r Rhaglen Lywodraethu. Byddwn ni'n gwrando ac yn deall y rhwystrau sy'n wynebu pobl ac yn gweithredu i fynd i'r afael â'r rhain. Byddwn ni'n ffurfio strategaethau newydd ac yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys ein sefydliadau Portffolio, i ddyfnhau ac ehangu ein hymgysylltiad â grwpiau a chymunedau ledled Cymru, yn enwedig y rhai sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd a thrwy gyflawni cynlluniau gweithredu Cydraddoldeb sydd wedi'u targedu. Mae'r rhain yn cynnwys ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru ac, mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru, ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad a gyhoeddwyd ar y cyd.

## Ein blaenoriaeth allweddol:

1. Gweithredu argymhellion ac ymrwymiadau sydd wedi'u cynnwys yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a gyhoeddwyd, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru ac, mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru, ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad ar y cyd

## 5 Ffordd o Weithio

**Tymor hir:** Mae ein blaenoriaethau yn cydnabod bod ymrwymiad hirdymor i gyflawni a sicrhau adnoddau yn hanfodol er mwyn sicrhau'r newid sylweddol sydd ei angen. Mae'r rhain yn adeiladu ar y Cynlluniau Gweithredu cyfredol a'r strategaethau tymor hir a'u datblygu.

**Integreiddio:**





Gwella hygyrchedd a chyfranogiad
Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, cyflawni gwrth-hiliaeth

**Cyfraniad:** Mae ein blaenoriaethau a'n gweithredoedd, gan gynnwys y rhai yn ein cynlluniau Gweithredu cyhoeddedig, wedi cael eu llywio drwy ymgysylltu a thrafod â phobl, cymunedau a grwpiau ledled Cymru. Bydd y ddeialog hon yn parhau wrth inni gloriannu effaith ein gweithredoedd a'u heffeithiolrwydd i sicrhau diwylliant yng Nghymru sydd wir yn adlewyrchu bywyd ei holl ddinasyddion.

**Cydweithio:** Ni allwn ddarparu'r newid pwysig yr ydym yn dymuno ei weld ar ein pennau ein hunain. Byddwn yn cyflawni'r gwaith hwn mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Amgueddfa Cymru a'r Ganolfan Genedlaethol i Ddysgu Cymraeg. Byddwn ni hefyd yn ffurfio partneriaethau a chydweithrediadau newydd wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

**Atal:** Nod y blaenoriaethau hyn yw mynd i'r afael ag anghydraddoldeb hygyrchedd, boed yn ddiwylliannol, yn gorfforol, yn gymdeithasol, yn ddaearyddol, yn economaidd neu'n ieithyddol a chael gwared ar y rhwystrau sy'n atal ymgysylltu ymhlith cymunedau penodol.

# 4. Celfyddydau, Iechyd a Lles

Mae pwysigrwydd y celfyddydau ar gyfer iechyd a lles yn ganolog i'n cenhadaeth ac yn cael ei dderbyn bob dydd yn ehangach a chan ragor o bobl. Ni fu'r effaith gadarnhaol y mae gweithgareddau creadigol ar ein lles erioed yn fwy amlwg nag yn ystod y pandemig pan fo pobl, cymunedau a gweithwyr rheng flaen wedi troi fwyfwy at y celfyddydau fel ffynhonnell hanfodol o fwynhad, cysylltiad, ystyr a chysur.

Mae lles yn uchelgais iach sy'n gofyn am ddull cyfannol ar draws pob agwedd ar ein bywyd. Mae'r agenda Les yn sail i'n strategaeth a'n gweithgarwch ehangach – nid yw'n gyfyngedig i'r Celfyddydau ac Iechyd.

Fodd bynnag, mae ein hadnoddau yn fach o ran Iechyd. Dyma pam rydym yn alinio ein gwaith â blaenoriaethau'r Llywodraeth a'r Byrddau Iechyd – cefnogi mentrau Llywodraeth Cymru fel Cymru o Blaid Pobl Hŷn a gwella'r ddarpariaeth iechyd meddwl a chynnal gwaith swyddi'r Cydlynwyr – ac i ymateb i'r her o allu cynyddu a lledaenu ymyriadau ar raddfa fwy mewn meysydd allweddol o les ac iechyd i boblogaeth Cymru. Eleni fe fyddwn ni felly yn sefydlu tîm rhaglen mewnol i'r Celfyddydau ac Iechyd i ddwyn y gwaith hwn yn ei flaen.

Yn ogystal â'r Byrddau Iechyd, byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid presennol fel Cydffederasiwn GIG Cymru a Sefydliad Baring yn ogystal â buddsoddi mewn cysylltiadau â sefydliadau strategol allweddol i barhau â gwaith pwysig mewn meysydd fel y fenter Cartrefi ac i gefnogi rhagnodi cymdeithasol i fynd i'r afael ag unigedd a chefnogi llesiant, gan gynnwys iechyd meddwl.

Byddwn ni'n gwella cyfleoedd i weithwyr rheng flaen hefyd allu elwa ar ymyriadau celfyddydol drwy gyflawni ein hadnodd ar-lein, y Cwtsh Creadigol a cheisio nodi a dod o hyd i arian ychwanegol i gefnogi rhaglen y Celfyddydau ac Iechyd.

## Ein blaenoriaeth allweddol:

1. Atgyfnerthu a datblygu ymhellach ein dull o ymdrin â'r Celfyddydau ac Iechyd yng Nghymru

## 5 Ffordd o Weithio

**Tymor hir:** Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu'r rhaglen hon ymhellach gydag adnoddau ychwanegol, yn gorfforol ac yn ariannol, i sicrhau bod pobl Cymru – gan gynnwys y rhai sy'n gweithio mewn amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol – yn parhau i elwa ar effaith gadarnhaol y celfyddydau ar eu hiechyd, eu hiechyd meddwl a'u lles.

**Integreiddio:**

Hyrwyddo iechyd a llesiant

**Cydweithio:** Partneriaethau sy'n sail i'n holl waith gyda'r Celfyddydau ac Iechyd. Rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y GIG a Gofal Cymdeithasol i ymgorffori a thyfu dulliau creadigol o ymdrin â gofal iechyd o fewn y system yn ogystal â datblygu cysylltiadau allan â'r gymuned gelfyddydol.

**Cyfranogiad:** Mae ein gwaith gyda'r Celfyddydau ac Iechyd yn cynnwys rhai o'r bobl fwyaf ymylol a bregus yn ein cymunedau i sicrhau manteision ar draws yr ystod lawn o ran oedran, dosbarth a daearyddiaeth Cymru.

**Atal:** Mae manteision cadarnhaol y celfyddydau a diwylliant ar iechyd a lles corfforol a meddyliol wedi cael eu profi. Gall datblygiad pellach o'r gwaith hwn a mwy o ragnodi cymdeithasol gynnig opsiwn arall i ragnodi meddyginiaeth mewn llawer o achosion unigol.

# 5. Pobl Ifanc a Dysgu Creadigol

Gall ymgysylltu'n egnïol â'r celfyddydau drawsnewid y ffordd y mae plant a phobl ifanc yn dysgu ac yn archwilio'r byd o'u cwmpas. Gall newid y ffordd maen nhw'n gweld eu hunain a'u dyheadau, yn ogystal â'u helpu i ddatblygu'r hunan-barch a'r hunanwerth a fydd yn rhan mor bwysig o'u sgiliau byw yn y dyfodol.

Mae Dysgu Creadigol wedi gosod y celfyddydau a chreadigrwydd yng nghwricwlwm yr ysgol. Mae wedi defnyddio grym y celfyddydau i roi egni eto i'r diwrnod ysgol a thrwy ddatblygiad proffesiynol uchelgeisiol mae wedi ailgynnau creadigrwydd yn yr athrawon eu hunain.

Wrth i ni ddechrau ar gam nesaf Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau mae ein strategaeth yn parhau i arloesi mewn ffyrdd newydd y gall mwy o ysgolion elwa arnynt i weld dulliau ymarferol o ddod â chyffro ac ysbrydoliaeth y celfyddydau i'r ystafell ddosbarth a datblygu creadigrwydd ein pobl ifanc.

Bydd ein gwaith yn y maes hwn hefyd yn mynd â ni y tu allan i leoliad yr ysgol wrth i ni archwilio opsiynau ar gyfer cefnogi 'Haf o Hwyl' gan gynnwys rhaglen i gyfoethogi gwyliau ysgol.

Rydym ni eisiau cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru a chefnogi'r bobl ifanc hynny y mae eu cyfleoedd mewn bywyd dan anfantais drwy ddylanwadau cymdeithasol ac economaidd.



Darlun Meistr Criw Celf gyda Jon Williams.

Mae ein dull o weithredu felly yn canolbwyntio ar dri amcan:

- adolygu a gwerthuso ein cynllun Criw Celf sy'n rhoi cefnogaeth i'n pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau creadigol a'u talentau, a chynnig cyfle am flwyddyn arall o gyllid

- Darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau penodol rhag cymryd rhan yn y celfyddydau gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal

- Darparu mwy o gyfleoedd drwy ein menter Hyrwyddwyr Ifanc

Rydym am i gymaint o bobl ifanc â phosibl yng Nghymru gredu bod y cyfle yno iddyn nhw fod y gorau y gallant – neu yr hoffent – fod, gan berfformio gyda'u cyfoedion ar y lefel uchaf, gan ddathlu ac arddangos eu doniau creadigol a chael llais yn ein strategaethau a fydd yn gosod llwybr creadigol iddyn nhw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. I hwyluso hyn byddwn yn archwilio opsiynau ar gyfer creu Rhwydwaith Pobl Ifanc a charfan o Gydweithwyr Ifanc.

Rydym am i bobl ifanc gael y cyfle i gynhyrchu, mwynhau a chymryd rhan mewn gweithgarwch creadigol y maent yn eu gweld fel gweithgarwch perthnasol, cyfoes a chyffrous.

## Ein prif flaenoriaethau:

1. Cyflwyno blwyddyn 1 o'r estyniad 3 blynedd i Ddysgu Creadigol
2. Datblygu a chefnogi cyfleoedd i blant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y celfyddydau y tu allan i leoliad yr ysgol.
3. Ymgorffori ymwneud pobl ifanc â strategaethau ar draws gwaith ehan-gach y Cyngor

## 5 ffordd o weithio

**Tymor hir:** Mae dysgu creadigol drwy'r celfyddydau'n trawsnewid profiadau dysgu disgyblion ar draws Cymru ers 2015. Eleni fydd blwyddyn gyntaf ein hestyniad 3 blynedd i'n prif raglen Dysgu Creadigol i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru 2022.

**Integreiddio:**





Creu cyfleoedd i bobl ifanc

**Cydweithio:** Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag Addysg Cymru Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynigion i gefnogi'r cwricwlwm ysgolion, ac yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid eraill gan gynnwys Blynyddoedd Cynnar Cymru, Trafod Addysgeg, Think Learning Network, Sefydliad Paul Hamlyn a'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol. Gweithgarwch cynhenid i'r Rhaglen yw'r cydweithio rhwng Asiantau Creadigol, Gweithwyr Creadigol proffesiynol a'r ysgolion y maent yn gweithio gyda nhw, i gyflawni gweithgarwch creadigol perthnasol sydd wedi'i dargedu i gefnogi'r cwricwlwm. Byddwn nawr yn ceisio datblygu partneriaethau newydd i gynyddu a dod o hyd i gyfleoedd newydd i bobl ifanc y tu allan i'r ysgol.

**Ymwneud:** Dros saith mlynedd y rhaglen, mae dysgu creadigol drwy'r celfyddydau wedi cysylltu â dros 1,240 o ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth (83% o ysgolion yng Nghymru), wedi darparu cyfleoedd i dros 148,000 o ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol a dysgu creadigol a thros 5,000 o ymgysylltiadau gan athrawon sy'n cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â datblygu sgiliau creadigol yn y celfyddydau mynegiannol. Lleisiau pobl ifanc fydd wrth wraidd datblygu mentrau newydd y tu allan i leoliad yr ysgol.

**Atal:** Drwy osod y celfyddydau a chreadigrwydd wrth wraidd addysg mae'r rhaglen arloesol hon wedi cefnogi ysgolion i ddatblygu dulliau newydd o ddylunio'r cwricwlwm i helpu i gefnogi disgyblion a allai fel arall gael eu datgysylltu ag addysg ac amgylchedd yr ysgol, cefnogi athrawon i archwilio dulliau arloesol o addysgu a chefnogi disgyblion i dyfu fel rhai sy'n dysgu'n annibynnol a chreadigol. Bydd maes gweithgaredd allweddol eleni yn cynnwys cynnig cyfleoedd i ysgolion nad ydynt wedi ymgysylltu â'r rhaglen o'r blaen i brofi prosiectau dysgu creadigol. Bydd meysydd gweithgaredd newydd yn canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc sy'n wynebu heriau bywyd sylweddol fel plant sy'n derbyn gofal a'r rhai yn y system gyfiawnder.



Ffotogallery a Dysgu Creadigol Cymru

# 6. Hybu'r Gymraeg

Nid oes dim sy'n gwneud Cymru'n fwy nodedig na'r Gymraeg. Mae hi'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel cenedl ac mae gennym swyddogaeth hanfodol wrth gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr erbyn 2050. Fe fyddwn ni'n mynnu trin y Gymraeg yn deg ac yn gyfartal. Nid mater o gydymffurfio â gofynion deddfwriaeth iaith y Llywodraeth yn unig yw hyn. Mae'n ymwneud â'n hymrwymiad i ddatblygu a manteisio ar y cyfleoedd y mae creadigrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu cynnig.

Byddwn ni'n ffurfio strategaethau a gwaith newydd mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys y Ganolfan Genedlaethol i Ddysgu Cymraeg, y Mentrau Iaith a'r Urdd. Byddwn ni'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ein Portffolio ddyfnhau ac ehangu ymgysylltiad â chynnyrch yn y Gymraeg ac â'r Gymraeg ei hun ar draws Cymru, a thrwy gyflawni eu cynlluniau gweithredu parthed y Gymraeg sydd wedi'u targedu. Byddwn ni'n symud ymlaen â'r argymhellion yn ein hymateb i'r Adroddiad Mapio'r Gymraeg a gyhoeddwyd yn yr Adroddiad am Fapio'r Gymraeg.

Mae hybu'r Gymraeg yn waith eang a phwysig a chaiff ei lywio i raddau helaeth gan ganlyniadau'r trafodaethau penodol a'u cefnogi drwy gyfres o gamau sydd wedi'u targedu. Yn y cyfamser gallwn grynhoi'r gwaith hwn yn un flaenoriaeth allweddol:

## Ein prif flaenoriaeth

1. Datblygu a lansio Strategaeth y Gymraeg a fydd yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg a blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac sy'n cynnwys:
    a. Cynyddu gwaith partneriaeth gyda'r Ganolfan Genedlaethol i Ddysgu Cymraeg, Mentrau Iaith a'r Urdd
    b. Gweithredu'r argymhellion yn ein hymateb i'r adroddiad mapio'r Gymraeg a gyhoeddwyd yn 2020
    c. Ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru fabwysiadu cynlluniau Cymraeg uchelgeisiol sy'n cynnwys targedau clir i gynnwys siaradwyr Cymraeg yn eu strwythurau llywodraethu, eu gweithlu a'u gweithgareddau

## 5 ffordd o weithio

**Tymor hir:** Mae ein gweithredoedd yn cefnogi targed Llywodraeth Cymru i sicrhau cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rydym yn darparu cyllid a buddsoddiad sy'n ariannu gweithgarwch creadigol cynhwysol yn newis iaith y cyfranogwyr a'r gynulleidfa ac sy'n cynnal cyfleoedd i bawb ledled Cymru fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau, nawr ac yn y dyfodol.

**Integreiddio:**



Gwella hygyrchedd a chyfranogiad
Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb

**Cydweithio:** Mae gwaith yn y maes hwn yn bellgyrhaeddol ac ni allwn gyflawni'r camau hyn ar ein pennau ein hunain. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ystod o bartneriaid i gyflawni'r gwaith – gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Amgueddfa Cymru a'r Ganolfan Genedlaethol i Ddysgu Cymraeg, Mentrau Iaith, yr Urdd a sefydliadau celfyddydol. Byddwn ni hefyd yn ffurfio partneriaethau a chydweithrediadau newydd wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

**Cyfranogiad:** Mae ein blaenoriaethau a'n gweithredoedd, gan gynnwys y rhai yn ein hadroddiad Ymateb i'r Gymraeg, wedi cael eu llunio drwy ymgysylltu a thrafod â phobl, cymunedau a grwpiau ledled Cymru. Bydd y ddeialog hon yn parhau wrth inni gloriannu effaith ein gweithredoedd a'u heffeithiolrwydd wrth sicrhau diwylliant yng Nghymru sy'n gwir adlewyrchu bywyd a dewis iaith ei holl ddinasyddion.

**Atal:** Mae'r Gymraeg yn unigryw i Gymru a dylai pobl Cymru allu cymryd rhan yn y celfyddydau ac ymgysylltu â'r celfyddydau drwy eu dewis iaith. Nod y blaenoriaethau hyn yw mynd i'r afael ag anghydraddoldeb hygyrchedd o ran iaith a chael gwared ar rwystrau sy'n atal ymgysylltiad pobl.

# 7. Gweithgaredd Rhyngwladol

Yn 2021 roeddem yn bwriadu ailfeddwl ein gwaith rhyngwladol yng nghyd-destun pedair her fyd-eang ac anferthol sy’n cael eu teimlo’n lleol yng Nghymru – pandemig y coronafeirws, Argyfwng yr Hinsawdd a chyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb a sefydlu cysylltiadau rhyngwladol newydd ar ôl ymadael â’r Undeb Ewropeaidd.

Mae cyfyngiadau’r coronafeirws a’r cyfnodau clo mewn gwahanol wledydd gan gynnwys cau eu ffiniau wedi effeithio ar ba mor rhwydd yw teithio rhyngwladol. Ond wrth i weithio rhyngwladol ddod yn bosibl eto, bydd yn hanfodol bod yr artistiaid a’r sefydliadau hynny sy’n dibynnu ar waith rhyngwladol am eu bywoliaeth yn gallu meithrin cyfleoedd newydd. Bydd hefyd yn bwysig rhannu’r cyfleoedd hynny â thalentau sy’n dod i’r amlwg yng Nghymru, gan gael gwared ar rwystrau i artistiaid o gymunedau lleiafrifol drwy ddileu anghydraddoldebau posibl yn ein prosesau a’n rhaglenni. Mae ymgyrchoedd fel Mae Bywyd Pobl Dduon o Bwys ac Ni Chawn Ein Dileu yn ogystal â’r Argyfwng yn yr Hinsawdd wedi tynnu sylw at werth Deddf Llesiant Cymru i adeiladu’n ôl yn gyfartal ac mewn ffordd gynaliadwy. Yn ystod y flwyddyn hon byddwn yn datblygu Fframwaith, a allai gael ei ddefnyddio ar draws y Cyngor, i allu gwerthuso effaith ein gwaith yn erbyn y 7 nod Lles.

Gallwn ddysgu o’r saib mewn teithio’n rhyngwladol ac ystyried sut y gall dull cyfunol o weithgarwch digidol a chorfforol fod o fudd i’r celfyddydau yng Nghymru i gysylltu’n rhyngwladol ac mewn modd cynaliadwy a fydd yn cyfrannu at dargedau carbon niwtral Llywodraeth Cymru. Er ein bod yn parhau i gyflawni ac addasu ein hymrwymiadau presennol, byddwn yn cyflawni Cymru Fenis 10 ac yn ailfeddwl ein perthynas Cymru â Biennale Fenis a digwyddiadau mawr eraill yng nghyd-destun argyfwng yr hinsawdd, Brecsit a’n hymrwymiad i gydraddoldeb a hygyrchedd at y dyfodol.

Roedd twf y cynnwys digidol a ymatebodd i'r agenda les yng Nghymru yn ystod y pandemig yn ddatblygiad oedd heb ei gynllunio ond sydd eto i'w groesawu'n fawr. Rhaid i ni ddysgu o'r twf yn ein sector yn y modd y mae cynnwys sy'n cael ei greu ar gyfer llwyfannau digidol bellach sydd wedi'i gynllunio gyda chynulleidfaoedd rhyngwladol a lleol.

Byddwn yn parhau â'n buddsoddiad mewn "Bro a byd – amcanion lles lleol a byd-eang" i'w datblygu gan greu ffordd newydd o weithio o ran amrywiaeth a'r cymunedau sydd ar wasgar yng Nghymru gan gysylltu gwaith rhyngwladol ag agenda amrywiaeth a chydraddoldeb ehangach y Cyngor a thrwy ein rhaglenni arian Loteri yr ydym yn parhau â'u cynnig.

Mae trefniadau newydd ar ôl Cytundeb Masnach y Deyrnas Unedig /Undeb Ewropeaidd yn sgil Brecsit yn cynrychioli newid sylfaenol i'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â'n partneriaid Ewropeaidd a byd-eang. Ar ôl creu Infopoint Celfyddydol y Deyrnas Unedig, mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon, yr Alban Greadigol a Chyngor Celfyddydau Lloegr, rydym bellach yn casglu'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer sefydliadau i barhau i gyflogi artistiaid Ewropeaidd, cyflwyno rhaglen artistig a theithio yn yr Undeb Ewropeaidd.

Mae cyflawni prosiectau sy'n cefnogi gwireddu y Strategaeth Ryngwladol a'i chynlluniau gweithredu yn allweddol eleni. Bydd yn cynnwys:

- Datblygu rhaglenni ar gyfer rhanbarthau a gwledydd blaenoriaeth
- Datblygu rhaglenni i gefnogi blwyddyn gyntaf Degawd Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig
- Cwmpasu a datblygu rhaglen bosibl ar gyfer cyfnewid gwersi a ddysgwyd drwy rwydweithiau sy'n adeiladu ar gyfleoedd dysgu a datblygiad proffesiynol presennol a'u cynnwys mewn rhaglenni rhyngwladol
- ymgyrch y #pethaubychain

## Ein prif flaenoriaethau:

1. Adolygu, ailosod a chyflwyno ein gweithgarwch rhyngwladol
2. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar brosiectau sy'n cefnogi gwireddu ei Strategaeth Ryngwladol a'i chynlluniau gweithredu.

## 5 ffordd o weithio

**Tymor hir:** Mae gweithio rhyngwladol yn gofyn am ddatblygiad a meddwl tymor hir. Mae digwyddiadau mawr ledled y byd yn newid eu modelau a bydd ein gwaith yn ymateb i'r agenda honno.

**Integreiddio:**



Dangos delwedd rymus a chadarnhaol o Gymru i'r byd

**Cydweithio:** Partneru gyda nifer o sefydliadau mewn cydweithrediad a thrafodaethau gan gynnwys Llywodraeth Cymru, cynghorau celfyddydau cyfagos, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cynghrair Diwylliannol Cymru, Celfyddydau Anabledd Cymru a Gwylio Affrica Cymru.

**Cyfranogiad:** Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector a chymunedau yng Nghymru i gyflawni ein huchelgeisiau rhyngwladol yn ogystal ag ymgysylltu â chymheiriaid rhyngwladol i rannu'r gwersi a ddysgwyd ac elwa ar yr arfer gorau. Bydd yn bwysig i ni sicrhau cefnogaeth eang y sector a sicrhau eu bod yn gweld bod y dull newydd yn gweithio iddynt.

**Atal:** Rydym yn ymateb i'r materion hanfodol sy'n wynebu gwaith rhyngwladol gyda'r angen i fynd i'r afael â'r rhain yn y tymor byr a hirach. Yn benodol, amrywiaeth a hygyrchedd mewn perthynas â chyfranogiad a chynrychiolaeth yn ein gwaith ar bob lefel. Nodir bod effaith amgylcheddol gweithio rhyngwladol yn bryder yn awr sydd wedi'i nodi yn ein hegwyddorion arweiniol.



*We Echo,* Taylor Edmonds

# 8. Y Celfyddydau a Chyfiawnder Hinsawdd

Byddwn ni'n mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi cynllun gweithredu deng mlynedd Carbon Sero Net Llywodraeth Cymru i holl gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru gyrraedd eu targedau Carbon Sero Net erbyn 2030. Rydym yn datblygu nifer o fentrau i hwyluso'r gwaith hwn.

Rydym yn datblygu cynllun gweithgareddau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn bwrw ymlaen â'n Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth er mwyn creu Partneriaeth Natur Greadigol. Mae hyn yn cynnwys datblygu dulliau gweithio rhyngom ni a Chyfoeth Naturiol Cymru i nodi meysydd cydweithio gan ganolbwyntio ar wneud y mwyaf o adnoddau a'u rhannu er mwyn cefnogi'r sector creadigol i symud tuag at garbon sero net.

Ar ôl i ni benodi Rheolwr Prosiect – Natur Greadigol yn 2022, byddwn yn cyflwyno ein Cymrodoriaethau Natur Greadigol newydd i 8 artist ar draws y celfyddydau i greu gwaith newydd, yn a /neu am yr amgylchedd, i ysbrydoli dulliau newydd o ymarfer sy'n ymdrechu i arloesi a herio ein hen ffyrdd o weithio. Bydd gweithgarwch yn mynd i'r afael â materion lles a chynaliadwyedd, yr amgylchedd naturiol, argyfwng yr hinsawdd a thrwy hyn yn ymgysylltu â chymunedau.

Llwybr y Sector Diwylliannol i Garbon Sero Net: bydd yn nodi meysydd cydweithio gan ganolbwyntio ar wneud y mwyaf o adnoddau a'u rhannu i gefnogi'r sector creadigol i symud tuag at garbon sero net. Mae hyn yn cynnwys gwaith rhyngwladol a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru ac yn tynnu ar Dîm Carbon Positif Cyfoeth Naturiol Cymru ac asiantaethau perthnasol i ddatblygu mentrau, adnoddau ac i lywio polisïau a dulliau o weithredu.

Byddwn yn gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i sefydlu meincnodau a phrotocolau i fonitro effaith amgylcheddol a lles gweithgareddau, gan gynnwys:

- Prosiectau wedi'u hariannu drwy'r Loteri
- Portffolio Celfyddydol Cymru
- gweithgareddau rhyngwladol gan gynnwys rhai Portffolio Celfyddydol Cymru

Byddwn ni'n datblygu neu'n berchen ar arferion gwaith i yrru datgarboneiddio a chefnogi'r Agenda Werdd, gan gynnwys adolygu a gwella ein hailgylchu ein hunain a lleihau gwastraff ac adolygu ein modelau gweithio yn y dyfodol i ystyried dulliau mwy ecogyfeillgar o weithio fel staff yn gweithio hybrid. Bydd ystyriaethau amgylcheddol, gan gynnwys datgarboneiddio yn cael eu gwreiddio ym mhob un o'n gweithgareddau prosiect a chaffael.

Gellir crynhoi'r holl waith hwn yn un flaenoriaeth allweddol:

## Ein prif flaenoriaeth:

1. Datblygu a chyflwyno ein cynllun ein hunain ar gyfer Cyfiawnder Hinsawdd a'r Celfyddydau

## 5 ffordd o weithio

**Tymor hir:** Mae'r gwaith hwn yn cefnogi Cynllun Gweithredu Carbon Sero Net Deng mlynedd Llywodraeth Cymru, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni gyrraedd ein targedau Carbon Sero Net ein hunain erbyn 2030, i helpu i amddiffyn ein planed rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar gyfer y cenedlaethau nawr ac yn y dyfodol.

**Integreiddio:**



Datgarboneiddio

**Cydweithio:** Byddwn ni'n gweithio mewn partneriaeth â nifer o randdeiliaid a threfniadau'r sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cyfoeth Naturiol Cymru, a chyda chymorth ein sefydliadau Portffolio y bydd gofyn iddynt hwy hefyd osod targedau uchelgeisiol am gyfiawnder hinsawdd fel rhan o'u Cytundeb Cyllido.

**Cyfranogiad:** Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ac unigolion y gallwn ymgysylltu â nhw, er enghraifft drwy arian prosiect grant neu gomisiynu gwasanaethau penodol ystyried effaith eu gwaith ar yr amgylchedd fel rhan o'u cynnig. Bydd ein staff ein hunain yn cael eu hannog i chwilio am ffyrdd y gallant leihau eu hôl troed carbon eu hunain a byddwn yn cyflwyno mesurau yn ein swyddfa i gefnogi hyn.

**Atal:** Mae ein gwaith yn y maes hwn wedi'i dargedu at gefnogi cyfiawnder hinsawdd a lleihau effaith ein hôl troed carbon ein hunain er mwyn atal niwed pellach i'r amgylchedd a'n planed, gan eu hamddiffyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Xenson @ Preswyliad Artistiaid Egin
(Llun: Steve Peake)

# 9. Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol i Gyngor Celfyddydau Cymru

Mae'r Cynllun Gweithredol hwn yn ffurfio blwyddyn olaf ein Cynllun Corfforaethol 5 mlynedd a gyhoeddwyd "Er Budd Pawb." Mae llawer wedi digwydd ers cyhoeddi'r cynllun hwn am y tro cyntaf yn 2018, rhai digwyddiadau a gynlluniwyd a rhai a ddigwyddodd ar hap, yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Fodd bynnag, mae'r egwyddor gyffredinol y dylai'r celfyddydau ac effaith ein gwaith fod mewn gwirionedd 'Er Budd Pawb' yn dal i lywio ein gwaith yn bennaf oll a gosod cyfeiriad ein siwrnai dan ymbarél Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Darn hanfodol o waith i ni eleni fydd cynhyrchu a chyhoeddi ein Cynllun Corfforaethol newydd, a fydd yn arwain ac yn cefnogi ein gwaith dros y 5 mlynedd nesaf. Bydd yn cynnwys amcanion ein Hadolygiad Buddsoddi a'r ffon fesur y byddwn yn ei defnyddio i werthuso'r Portffolio newydd. Bydd yn ystyried sut rydym ni'n trawsnewid y celfyddydau yng Nghymru a'r rhai sy'n dibynnu arnynt ac yn ymgysylltu â nhw – ar ôl y pandemig. Bydd yn gosod cwrs clir o weithredu i helpu i leihau'r niwed i'n hamgylchedd a chefnogi cyfiawnder yn yr hinsawdd i ddiogelu ein planed ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd yn blaenoriaethu mentrau sy'n cefnogi iechyd a lles, yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc a'r rhai sy'n dioddef gwahaniaethu mewn unrhyw ffordd, ar draws yr holl nodweddion sydd wedi'u gwarchodedig a grwpiau a chymunedau sy'n cael eu tangynrychioli, y rhai sy'n wynebu heriau economaidd, cymdeithasol a daearyddol. Bydd yn ein cyfeirio at adolygu ein gweithdrefnau rhoi grantiau gan sicrhau eu bod yn cael eu symleiddio ac yn caniatáu monitro ac adrodd effaith yn well. Bydd yn ein galluogi, fel sefydliad, i ehangu ein hymgysylltiad, yn ddyfnach i'r gymdeithas i ymgysylltu a gwrando ar y lleisiau a dangynrychiolir yn ein cymdeithas, ac i ddatblygu ein harferion gwaith ein hunain i sicrhau ein bod yn cyrraedd yr effeithlonrwydd mwyaf a diogelu ein hadnoddau ein hunain fel y gallwn ddarparu agenda heriol. Ac fe fydd y cyfan yn cael ei ategu gan egwyddor Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Fodd bynnag, ni allwn – ac ni ddylem ni – wneud hyn ar ein pennau ein hunain. Byddwn yn ymgysylltu â phartneriaid presennol ac yn meithrin perthnasoedd newydd i gyflawni nodau a rennir.

Byddwn ni'n datblygu ein gweithlu ein hunain, gan gyflwyno hyrwyddwyr cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac annog a chynnig cyfle i staff ddysgu Cymraeg. Byddwn yn adolygu ein trefniadau gweithio ein hunain er mwyn sicrhau ein bod yn cefnogi ein hamcanion a'n staff.

Yn y cyfamser, byddwn hefyd yn sicrhau bod y Cynllun Gweithredol hwn wedi ein galluogi i fodloni ein canlyniadau a ddeisyfwn yn 'Er Budd Pawb.' Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am sut mae hyn wedi'i gyflawni ar dudalen 46.



Carlos Bunga, *Terra Firma*, Oriel Gelf Glynn Vivian (Llun: Polly Thomas)

## Ein prif flaenoriaethau:

1. Datblygu ein Cynllun Corfforaethol newydd y byddwn yn ymgorffori ynddo egwyddorion Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynnwys:
    a. Adolygu'r blaenoriaethau presennol
    b. Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth a Llythyr Cylch Gwaith
    c. Mwy o ganolbwyntio ar gyfiawnder hinsawdd
2. Ailedrych ac adfywio ein partneriaethau gwerth cyhoeddus gan nodi sut y gallwn gyd-fuddsoddi cyllid cyhoeddus mewn meysydd o flaenoriaeth gyffredin, gan adeiladu ar y trefniadau presennol
3. Datblygu ein gweithlu o fewn y Cyngor mewn meysydd i gynnwys mwy o gynrychiolaeth / ymwybyddiaeth o'r canlynol :
    a. Cydraddoldeb
    b. Hygyrchedd
    c. Y Gymraeg
    d. Hunanddatblygiad
    e. Lles (gan gynnwys iechyd ac iechyd meddwl hefyd)
    f. Dychwelyd i drefniadau gweithio yn y swyddfa neu hybrid
    g. Adolygu ein heffeithiolrwydd wrth roi grantiau

## 5 ffordd o weithio

**Tymor hir:** Bydd gwaith yn y maes hwn yn gosod cyfeiriad ein siwrnai am y 5 mlynedd nesaf. Bydd effaith meysydd gwaith penodol, er enghraifft ar gyfiawnder hinsawdd, i gefnogi cynllun gweithredu 10 mlynedd Llywodraeth Cymru Carbon Sero Net.

**Integreiddio:**



Datgarboneiddio
Gwella hygyrchedd a chyfranogiad i bawb


**Cydweithio:** Byddwn ni'n gweithio gyda nifer o bartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'n sefydliadau yn y Portffolio.

**Cyfranogiad:** Bydd ein gwaith yn cynnwys ymgysylltu ac ymgynghori â'r sector ehangach a'r cyhoedd, yn enwedig y grwpiau a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli.

**Atal:** Bydd y gwaith hwn yn sicrhau ein bod yn parhau i ddatblygu a gwella ein cynnig a'n hunain fel sefydliad, yn gwella ein perthnasoedd a'n hymgysylltiad â phobl Cymru ac yn atal anghydraddoldeb ac ymyleiddio a'r niwed i bobl eraill ac i'n planed.

# Beth mae'r Cynllun hwn yn ei olygu i chi

Mae'r celfyddydau ar gyfer pawb a nod ein Cynllun Gweithredol yw sicrhau pwy bynnag ydych chi, mae yna ffordd y byddwch chi'n gallu cael hygyrchedd a chymryd rhan yn y celfyddydau. Felly beth mae ein Cynllun Gweithredol yn ei olygu i chi?






1. Adolygiad Buddsoddiad
2. Adfer a Thrawsnewid
3. Ehangu Ymgysylltiad a Chydraddoldeb
4. Y Celfyddydau, Iechyd a Llesiant
5. Pobl Ifanc a Dysgu Creadigol
6. Hybu'r Gymraeg
7. Gweithgaredd Rhyngwladol
8. Celf a Chyfiawnder Hinsawdd
9. Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol i Gyngor Celfyddydau Cymru


Beth mae'r Cynllun hwn yn ei olygu i chi
Hoffwn fynychu'r celfyddydau, cymryd rhan ynddynt a gweithio yn y maes
Bydd rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgarwch celfyddydol a fydd o fudd i'm hiechyd corfforol a meddyliol
Bydd fy ngweithgarwch celfyddydol ar ôl y pandemig wedi'i warchod ac yn well
Bydd strategaethau i gael rhagor o gyfleoedd arwain a datblygu gyrfa yn y celfyddydau i mi
Mae fy marn o bwys a bydd pobl yn gwrando arnaf
Ni phrofaf anfanteision oherwydd fy amgylchiadau neu'r lle dwi'n byw
Rhagor o gyfleoedd creadigol i ymgysylltu â phobl ifanc a'u cefnogi
Bydd digwyddiadau a chyfleoedd celfyddydol lleol yn Gymraeg a Saesneg
Artist neu weithiwr creadigol llawrydd dwi
Caf gefnogaeth drwy egwyddorion y contract diwylliannol yn fy ngwaith
Rhagor o gyfleoedd i weithio'n greadigol mewn sefyllfaoedd iechyd ac addysg
Datblygu cyfleoedd cynhwysol gyrfa ac arwain yn y celfyddydau
Strategaeth Ddiwylliannol newydd Llywodraeth Cymru
Ymgorfforir fy nghydraddoldeb a'm dewis iaith
Ni phrofaf anfanteision oherwydd fy amgylchiadau neu'r lle dwi'n byw
Bydd ymgeisio am grant yn symlach
Sefydliad celfyddydol neu grŵp cymunedol ydym ni
Ymgysylltwn yn ehangach a datblygwn bartneriaethau a chynulleidfaodd newydd
Ymgorfforwn gydraddoldeb a'r Gymraeg yn ein Bwrdd, ein gweithlu a'n rhaglenni o waith
Bydd ymgeisio am grant yn symlach
Bydd cyngor am yr Adolygiad Buddsoddi a'i weithgarwch yn ailddechrau
Ymrwymwn i'r Contract Diwylliannol
Strategaeth Ddiwylliannol newydd Llywodraeth Cymru
Bydd egwyddorion datblygu cynaliadwy'n arwain sut y gweithiwn
Ein ffordd o weithio yn y dyfodol
Symlhau ein proses ymgeisio am grant i wneud popeth yn haws
Adeiladu ein blaenoriaethau ar sail datblygiad cynaliadwy ac egwyddorion o gyfiawnder hinsoddol
Cyflawni yn ôl y targedau yn ein cynlluniau cyhoeddedig a'n Llythyr Cylch Gwaith
Datblygu a lansio Strategaeth i'r Gymraeg
Mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu pobl ag anfantais sylweddol yn gymdeithasol-economaidd
Ymgynghori i ddeall heriau celfyddydol ac ôl-bandemig ac ymateb iddynt
Datblygu Cynllun Corfforaethol newydd

# Mesur ein llwyddiant

Mae'r cyhoedd yn gywir wrth ddisgwyl bod y sefydliadau maen nhw'n eu hariannu yn effeithlon ac yn gost effeithiol. Ac oherwydd ein bod ni'n cael ein hariannu'n gyhoeddus, mae'n rhaid i ni allu dangos y budd y mae ein gwaith yn ei gyflawni, ac i ba raddau rydym ni'n gwneud gwahaniaeth.

Mae ein Cynllun yn seiliedig ar weithgareddau ategol sy'n darparu'r elw diwylliannol, economaidd a chymdeithasol mwyaf posibl. Mae angen i ni allu esbonio, yn glir ac yn gywir, yr effaith y mae ein buddsoddiad yn ei chael wrth gyflawni ein blaenoriaethau.

Rydym ni'n gwneud hyn mewn nifer o wahanol ffyrdd:

- Adolygu data ariannu
- Arolygu gweithgareddau Portffolio Celfyddydol Cymru
- Arolygon o gyhoedd Cymru
- Gwerthuso effaith mentrau neu raglenni ariannu penodol
- Adrodd ar ein cynnydd i Lywodraeth Cymru ac i'n Cyngor a'i Bwyllgorau
- Cyhoeddi adroddiadau blynyddol

Yn y tablau isod rydym yn rhoi enghreifftiau cyffredinol o rai o'r ffyrdd yr ydym yn mesur ein llwyddiant.

| Rhaglen waith | Mesur o lwyddiant |
|---|---|
| **Adolygiad Buddsoddi** | Cyhoeddi dogfen Gweledigaeth sy'n taro deuddeg gydag adborth allanol, yn hyrwyddo ein blaenoriaethau cyhoeddedig ac yn diffinio disgwyliadau'r Cyngor o aelodau o'r Portffolio Celfyddydol Cymru<br><br>Cyhoeddi Cylch Gorchwyl sy'n diffinio'n glir feini prawf yr Adolygiad Buddsoddi, y broses a'r amserlen.<br><br>Proses ymgeisio gryno sydd wedi'i diffinio'n glir ac sy'n hyrwyddo eglurder a rhwyddineb defnydd ac yn darparu ar gyfer ystyriaethau hygyrchedd a dewisiadau iaith. |
| | **Effaith**<br><br>Bydd Portffolio Celfyddydol Cymru yn cyflawni yn ôl ein blaenoriaethau strategol ac yn darparu gweithgarwch creadigol cynaliadwy er lles pawb.<br><br>Bydd creadigrwydd yn cael ei gynnal a'i ddatblygu ymhellach yn y byd a ddaw ar ôl y coronafeirws. |

| Rhaglen waith | Mesur o lwyddiant |
|---|---|
| Adfer a Thrawsnewid | Cynyddu capasiti a gallu digidol o fewn y sector<br><br>Mabwysiadu cyfraddau cyflog teg, cydraddoldeb rhwng y rhywiau, ystyriaethau ieithyddol ac amgylcheddol fel safon ar draws y celfyddydau<br><br>Mwy o gydweithio â chymunedau lleol, grwpiau a'r sectorau creadigol i rannu arferion da a datblygu sgiliau<br><br>Cynnal ymgynghoriad i nodi'r meysydd allweddol y gellid eu cynnwys gan raglen Gyfalaf yn y dyfodol<br><br>Gwneud gwerthusiad i nodi meysydd llwyddiant/ sydd angen eu gwella<br><br>Penderfynu ar elfennau o strategaeth ddrafft<br><br>Mwy o le arddangos a hygyrchedd i waith dethol i'w arddangos a'i fwynhau gan y cyhoedd ledled Cymru<br><br>Gwell cyfleusterau a darpariaeth gelfyddydau i'r Gogledd<br><br>Bydd crewyr cerddoriaeth wreiddiol yng Nghymru yn cael hygyrchedd at gymorth sydd wedi'i deilwra i fynd i'r afael â bylchau o ran darpariaeth a diffyg cyfleoedd hanesyddol i gerddorion du yng Nghymru i gyflawni eu potensial<br><br>Mwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r pwysau presennol sydd yno a chymryd tymheredd celfyddydau penodol i helpu i lywio a chyfarwyddo polisi'r dyfodol |

### Effaith

Wrth i adferiad ar ôl y coronafeirws ymsefydlu, rydym yn disgwyl gweld y rhwystrau presennol rhag ymgysylltu yn cael eu dileu gan sicrhau y bydd mwy o bobl ym mhob cymuned ac o bob cefndir yng Nghymru yn gallu cael hygyrchedd i'r celfyddydau drwy well darpariaeth a seilwaith a dewis gwneud y celfyddydau yn rhan o'u bywyd. Bydd mentrau allweddol gan gynnwys ein cydweithrediadau â Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru i gyflawni'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru ac â Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r Strategaeth Ddiwylliannol yn helpu i gyflawni hyn.

Bydd gennym dystiolaeth o'r cyfraniad y mae ein derbynwyr grant wedi'i wneud i Nodau Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd canlyniadau'n amlwg yn yr effaith gyffredinol a gaiff uchelgeisiau'r Contract Diwylliannol ar:

- Potensial twf
- Gwaith teg a chyfleoedd i weithwyr ac unigolion llawrydd
- Hyrwyddo iechyd, sgiliau a dysgu yn y gweithle

Egwyddorion amgylcheddol a lles, gan gynnwys gostwng yr Ôl Troed Carbon

| Rhaglen waith | Mesur o lwyddiant |
|---|---|
| **Ehangu Ymgysylltiad a Chydraddoldeb** | Cyfrifoldeb cydweithredol wrth gyflawni canlyniadau i hyrwyddo cydraddoldeb a chynyddu hygyrchedd ar gyfer pobl a chymunedau sy'n wynebu rhwystrau i ymgysylltu.<br><br>Drwy ein diweddariadau chwarterol byddwn yn dangos tystiolaeth i'r Cyngor a'i Bwyllgorau ac i Lywodraeth Cymru o'n cynnydd yn ôl ein blaenoriaethau allweddol fel y gosodir gan ein Cyngor a thrwy Raglen Lywodraeth y Llywodraeth. Mae'r rhain yn cynnwys ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru ac, mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru, ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad a gyhoeddwyd ar y cyd.<br><br>Bydd Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb gan sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru yn cael eu hadolygu er mwyn asesu eu cynnydd o ran cyrraedd yr amcanion a nodwyd. |

**Effaith**

Bydd ail-flaenoriaethu cyllid yn sicrhau dosbarthiad tecach o fuddsoddiad ac yn darparu cyfleoedd i fwy o bobl F/fyddar, anabl a niwroamrywiol a phobl ethnig a diwylliannol amrywiol i ddatblygu eu talent greadigol.

Mae gweithgareddau creadigol mwy amrywiol yn dangos gwir amrywiaeth talent greadigol Cymru, gan godi proffil unigolion a sefydliadau a dangynrychiolid.

Drwy ein gweithredu uniongyrchol a'n gwaith partneriaeth, bydd y celfyddydau'n dod yn fwy cynhwysol a chynrychioliadol o bob unigolyn a chymuned yng Nghymru. Bydd hyn yn sbarduno newid ar draws y sector ac yn arwain at gyfleoedd newydd i fwynhau, cymryd rhan a gweithio yn y celfyddydau.



Cyfansoddwr Teifi Emerald yn gweithio gydag actorion Theatr Hijinx fel rhan o brosiect Symud CoDI Tŷ Cerdd (Llun: Matthew Thistlewood)

| Rhaglen waith | Mesur o lwyddiant |
|---|---|
| **Iechyd a Lles y Celfyddydau** | Mwy o adnoddau ac eiriolaeth ddwys i barhau ac adeiladu ymhellach ar gynnydd blaenllaw’r Rhaglen hyd yma<br><br>Mwy o ddarpariaeth ac adnoddau i gefnogi a chyflwyno ymyriadau celfyddydol strategol sy’n canolbwyntio ar wella iechyd meddwl pobl wrth inni ddod allan o’r pandemig<br><br>Cymorth llesiant ychwanegol sy’n hawdd ei gyrraedd i weithwyr y GIG a gofal cymdeithasol, gydag amrywiaeth o gynnwys wedi’i ddiweddaru’n rheolaidd<br><br>Mwy o gyfleoedd i artistiaid a sefydliadau arddangos eu gwaith |

### Effaith

Cyflawni ymyriadau strategol celfyddydol sy’n canolbwyntio ar wella iechyd corff a meddwl pobl

Cefnogaeth a chyfleoedd i’r rhai sy’n gweithio mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol i gymryd rhan yn y celfyddydau.

Rhagor o ymwybyddiaeth o fanteision iechyd a lles o gymryd rhan yn y celfyddydau ymhlith y cyhoedd, llunwyr polisi, clinigwyr – o fewn a thu hwnt i Gymru.

Mae creadigrwydd wedi’i sefydlu fel elfen graidd o fframwaith Rhagnodi Cymdeithasol Llywodraeth Cymru; mae’r ystod o fodelau cyflenwi a rhaglenni enghreifftiol yn tyfu.



*Symud i du hwnt i gydymffurfio*, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru yncyflwyno mewn partneriaeth gyda Chartrefi Cymru i archwilio sut mae symudiad yn gallu elwa lles staff sydd yn gweithio mewn lleoliadau gofal (Llun: Jim Elliot)

| Rhaglen waith | Mesur o lwyddiant |
|---|---|
| Pobl Ifanc a Dysgu Creadigol | Mwy o gyfleoedd a chefnogaeth i bobl ifanc o fewn lleoliad yr ysgol drwy barhad Dysgu Creadigol<br><br>Mwy o gyfleoedd a chefnogaeth i bobl ifanc ymgysylltu â'r celfyddydau y tu allan i leoliad yr ysgol<br><br>Meysydd a strategaethau datblygiadol sy'n cynnwys cynyddu cynrychiolaeth o leisiau pobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol |
| | **Effaith**<br><br>Cyfleoedd parhaus a gwell i ysgolion a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgarwch celfyddydol sy'n cefnogi'r Cwricwlwm newydd drwy'r rhaglen Dysgu Creadigol a estynnwyd<br><br>Mwy o gyfleoedd i bobl ifanc ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg i weithio yn y celfyddydau, gan gynnwys cyfleoedd y tu allan i leoliad yr ysgol.<br><br>Cynnydd yn nifer y prentisiaethau sydd ar gael mewn swyddi creadigol a chefnogol. |
| Hybu'r Gymraeg | Cyhoeddi Strategaeth y Gymraeg sy'n dangos yn glir gefnogaeth y Cyngor a'i waith i hyrwyddo'r Gymraeg a blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br><br>Gwell darpariaeth a chyfleoedd Cymraeg ar draws y Sector ac i gynulleidfa/ cyfranogwyr<br><br>Mwy o gynrychiolaeth o'r Gymraeg ar draws aelodau o'r Portffolio, gan gynnwys drwy adnoddau, Byrddau ac allbwn creadigol<br><br>Adolygu cynlluniau Gweithredu'r Gymraeg gan sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru er mwyn asesu eu cynnydd o ran cyrraedd yr amcanion a nodwyd. |
| | **Effaith**<br><br>Bydd ail-ganolbwyntio adnoddau gyda ffocws penodol yn y Gymraeg yn sbarduno newid ar draws y sector ac yn arwain at gyfleoedd newydd i fwynhau, cymryd rhan a gweithio yn y celfyddydau drwy ddewis iaith yr unigolyn heb unrhyw wahaniaeth mewn profiad na chyfle. |

| Rhaglen waith | Mesur o lwyddiant |
|---|---|
| **Gweithgaredd Rhyngwladol** | Creu model rhesymegol i helpu i lywio penderfyniadau strategol ar gyfer buddsoddiad a fframwaith rhaglenni a gwerthuso rhyngwladol, yn erbyn saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys rhaglen newydd i ddad-garboneiddio gwaith rhyngwladol yn y celfyddydau yng Nghymru a chyfrannu at dargedau carbon niwtral yn sector y celfyddydau.<br><br>Dad-drefedigaethu ein dull o weithio rhyngwladol fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn genedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Datblygu model lleol/ byd-eang ar draws holl feysydd gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru gan gynnwys dinasyddiaeth fyd-eang a chyfiawnder hinsawdd.<br><br>Arwain buddsoddiad â ffocws mewn gweithgarwch dan arweiniad artistiaid rhyngwladol sy'n cefnogi newid dulliau o weithio rhyngwladol ac yn ymateb i anghenion ar draws amrywiaeth y sector.<br><br>Mwy o fuddsoddiad mewn artistiaid (gan gynnwys artistiaid gweledol) a'r sector i ddatblygu potensial a gallu rhyngwladol mewn ffordd gynaliadwy a datblygu dulliau newydd o arddangos gyda phartneriaid yn y Deyrnas Unedig a rhyngwladol.<br><br>Partneriaethau a phroffil strategol a gwaith cryf o fewn Ewrop, datgloi cyfleoedd ar gyfer cydweithio a dysgu gwersi i'r sector drwy ymgysylltu â'r rhwydwaith<br><br>Drwy'r cytundeb strategol Rhyngwladol gyda Llywodraeth Cymru, cyfrannu'n weithredol tuag at gyrraedd y nodau a amlinellir yn strategaeth a chynlluniau gweithredu rhyngwladol Llywodraeth Cymru, gan danlinellu'r cyfraniad cryf a wnaiff y celfyddydau, a mwy o gyfleoedd i'r sector gysylltu'n rhyngwladol.<br><br>Mwy o eiriolaeth, rhannu gwybodaeth a chyd-fuddsoddiadau mewn dulliau cynaliadwy newydd o ymdrin â gwaith rhyngwladol ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â gweithio rhyngwladol ac o ran polisïau datganoledig; rhaglen o gyd-weithgarwch sy'n cynyddu cyfleoedd rhyngwladol i'r sector ac sy'n cyfrannu at strategaeth ryngwladol Cymru; mwy o ddarpariaeth gwybodaeth a chefnogaeth i symudedd artistiaid, gan gynnwys ar ôl Brecsit, drwy Infopoint. |
| | **Effaith**<br><br>Byddwn yn gallu dangos ein bod yn gwneud cyfraniad clir a chadarnhaol at y nodau Llesiant drwy ein gwaith gartref a thramor.<br><br>Bydd y celfyddydau'n dod yn fwy cynhwysol ac yn gynrychioliadol o bob unigolyn a chymuned, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.<br><br>Bydd modd i sefydliadau ac unigolion adeiladu'n ôl i weithio'n rhyngwladol mewn modd cynaliadwy a gwydn. |



*Parallel Realities*,
Clare Marie Bailey – Gisle Naatas
(Llun: Are Carlsen)

| Rhaglen waith | Mesur o lwyddiant |
|---|---|
| Y Celfyddydau a Chyfiawnder Hinsawdd | Mwy o fynediad at y celfyddydau yng nghyd-destun yr amgylchedd i fwy o bobl ledled Cymru, yn enwedig rhai o grwpiau a chymunedau sydd ar hyn o bryd yn cael eu tangynrychioli<br><br>Lleihad yn ein hôl troed carbon ein hunain drwy barhau i weithio hybrid a defnyddio ffyrdd digidol amgen o weithio sy'n cefnogi amcanion niwtraliaeth garbon Llywodraeth Cymru erbyn 2030. |
| | **Effaith**<br><br>Byddwn yn manteisio ar yr arloesedd a'r dysgu sy'n dod i'r amlwg o ymateb y Sector i bandemig y coronafeirws, gan helpu i adeiladu'n ôl yn well, yn fwy teg ac yn fwy cynaliadwy.<br><br>Bydd tystiolaeth o effaith ein gwaith ar nodau lles, gan gynnwys iechyd a'r amgylchedd, ac i gefnogi nod Llywodraeth Cymru i gyrraedd niwtraliaeth garbon erbyn 2030. |
| Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol i'r Cyngor Celfyddydau | Cynhyrchu a chyhoeddi cynllun Corfforaethol sy'n amlwg yn diffinio ein blaenoriaethau a'n gweithgareddau allweddol a'u haliniad gyda blaenoriaethau lleol, cenedlaethol a byd-eang<br><br>Gallu gwerthuso, gweld tystiolaeth ac adrodd ar effaith ein gwaith a gwaith ein Portffolio ar y 7 nod llesiant<br><br>Gwneud y mwyaf o'n partneriaethau gwerth cyhoeddus, cyrff cyhoeddus sy'n cyd-fuddsoddi i gyflawni mwy gyda'i gilydd nag ar wahân mewn meysydd o gyd-flaenoriaeth<br><br>Gweithlu medrus a phrofiadol sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a chael adnoddau llawn wrth gyflawni'r gwaith ac yn cael cyfleoedd hunanddatblygu a lles<br><br>Cefnogi egwyddorion Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru<br><br>Trefniadau gweithio diwygiedig sy'n<br>• Diwallu anghenion y sefydliad a'r staff<br>• Canolbwyntiau ar allbynnau<br>• Gwella ac elwa ar yr effeithlonrwydd gweithio a'r effaith gadarnhaol ar elfennau amgylcheddol, lles ac ariannol a welir drwy drefniadau gweithio presennol y pandemig<br><br>Rhaglenni grant perthnasol ac effeithiol sy'n hygyrch i bawb<br><br>Prosesu effeithlon sy'n lleihau'r amser mae'n ei gymryd<br><br>Gwell atebolrwydd<br><br>Gwell adrodd am effaith cyllid grant, gan gynnwys rhagor o astudiaethau achos<br><br>Gwella monitro o'n grantiau presennol |

| Rhaglen waith | Mesur o lwyddiant |
|---|---|
| Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol i'r Cyngor Celfyddydau | Effaith<br><br>Mae partneriaethau a chydweithrediadau yn gweithio tuag at amcanion a rennir gan ganiatáu mwy o adnoddau, yr effeithlonrwydd mwyaf posibl a dysgu gwersi ar y cyd gan alluogi llwyddiant y ddarpariaeth i gael yr effaith fwyaf.<br><br>Bydd ein blaenoriaethau a'n gweithgarwch, yn fewnol ac yn allanol, yn cyd-fynd yn glir â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i hegwyddorion, gan sicrhau cyfleoedd tecach a chynaliadwy i bobl eu mwynhau, cymryd rhan a gweithio yn y celfyddydau.<br><br>Byddwn yn gallu dangos cyfraniad ein derbynwyr grant, o ganlyniad i'n cyllid, at y nodau Llesiant.<br><br>Mwy o gefnogaeth a chynaliadwyedd i'r Sector, i sefydliadau ac unigolion.<br><br>Cyfran uwch o gefnogaeth o fewn ein rhaglenni cyllido ar gyfer ymgeiswyr, yn enwedig y rhai sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd ymhlith y rhai sy'n cael ein cyllid.<br><br>Mwy o adnoddau ac effeithlonrwydd ariannol, gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a chyfraniad cadarnhaol at agenda datgarboneiddio Llywodraeth Cymru drwy gyflwyno model gweithio hybrid. |

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Cynllun Gweithredol
2022-23